Polisi'n amlinellu'r gwasanaethau a gynigir i bobl Cymru gan yr Archifau Cenedlaethol

Cynnwys

Crynodeb o'r polisi
1. Diben
2. Cefndir
3. Gohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir gennym yn yr iaith Gymraeg
4. Darparu, yn Gymraeg, rai dogfennau detholedig a gynhyrchir yn fewnol
5. Cynrychioli Cymru mewn cyfarfodydd lle mae diddordebau Cymreig yn y fantol
6. Adolygu'r polisi

Crynodeb o'r polisi

Yr ydym ni, yr Archifau Cenedlaethol ar gyfer Cymru, yn cydnabod ein dyletswydd i gynnig gwasanaethau ychwanegol penodol i bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ym meysydd cofnodion ac archifau, a'r drefn weinyddol yng Nghymru.

Yr ydym yn ymrwymo i:

- ateb yn Gymraeg unrhyw ymholiadau ysgrifenedig a dderbynnir yn Gymraeg
- ddarparu cyfieithiadau Cymraeg o ddogfennau detholedig a gynhyrchir yn fewnol yn unol â'r diffiniad ym mharagraff 4.1
- wahodd person(au) 'addas a chymwys' i gynrychioli pobl Cymru mewn cyfarfodydd lle bo diddordebau Cymreig yn y fantol

Adolygir y polisi hwn fel arfer bob tair blynedd.

1 Diben

1.1 Mae'r polisi hwn yn ddatganiad am yr ystod o wasanaethau a gyflwynir gennym i bobl Cymru yn unol â'n swyddogaeth fel yr Archifau Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Sylwer nad yw'r polisi'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus na Llyfrfa Ei Mawrhydi.

1.2 Bwriedir y polisi nid yn unig at ddibenion cyfeirio mewnol, ond hefyd fel datganiad cyhoeddus sydd yn amlinellu'r gwasanaethau a gyflwynir gennym i bobl Cymru.

2 Cefndir

2.1 Yn ogystal â chreu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dynododd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fod cofnodion sydd yn ymwneud â gweinyddiad Cymru'n 'gofnodion cyhoeddus Cymreig' (ceir diffiniad llawn yn adran 148 Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

2.2 Mae Deddf Llywodraeth Cymru'n dweud, er bod cofnodion cyhoeddus Cymreig yn syrthio y tu allan i'r diffiniad o gofnod cyhoeddus yn ôl yr hyn a ddywedir yn atodlen 1 o Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, y dylid eu trin fel pe baent yn gofnodion cyhoeddus hyd nes i'r Arglwydd Ganghellor gyhoeddi gorchymyn i drosglwyddo cyfrifoldeb am y cofnodion i'r Cynulliad.

2.3 Sylwer nad yw cofnodion swyddogaethau neilltuedig, h.y. swyddogaethau nad ydynt wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn 'gofnodion cyhoeddus Cymreig', hyd yn oed pan maent yn ymwneud â Chymru neu'n effeithio arni.

2.4 Hyd nes y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n sefydlu archifdy swyddogol i Gymru, yn cyfateb ag Archifau Cenedlaethol yr Alban ac Archifdy Gwladol Gogledd Iwerddon, bydd yr Archifau cenedlaethol yn cyflawni'r swyddogaeth honno. Yn rhinwedd ein rôl fel yr Archifau Cenedlaethol i Gymru, yr ydym yn dethol cofnodion cyhoeddus Cymreig i'w cadw'n barhaus, yn gofalu am y cofnodion hynny wedi iddynt gael eu trosglwyddo, ac yn darparu'r cyfleusterau i'r cyhoedd eu harchwilio.

2.5 Mae'r polisi hwn yn gosod allan y gwasanaethau ychwanegol yr ydym wedi ymrwymo i'w cyflwyno i bobl Cymru er mwyn cyflawni'r rôl honno.

3 Gohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir gennym yn yr iaith Gymraeg

3.1 Byddwn yn ateb yn Gymraeg yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir gennym yn y Gymraeg. Mae gohebiaeth ysgrifenedig yn cynnwys llythyrau, negeseuon e-bost a ffacs yn ogystal ag ymholiadau a dderbynnir trwy gyfrwng un o'r gwahanol ffurflenni cyswllt ar y wefan. Byddwn yn ateb yr ohebiaeth hon o fewn yr amser arferol.

3.2 Ni chyfieithir cofnodion gwreiddiol a bydd unrhyw ddyfyniadau o gofnodion gwreiddiol sydd naill ai'n gynwysedig yn ein hatebion, neu'n cael eu hatodi atynt, yn aros yn yr iaith yr ysgrifennwyd hwy ynddi. Byddwn, fodd bynnag, yn cyfieithu canllawiau ymchwil a thaflenni Gwybodaeth o'r Archifau sydd yn berthnasol i'r ymholiad.

4 Darparu, yn Gymraeg, rai dogfennau detholedig a gynhyrchir yn fewnol

4.1 Byddwn yn darparu fersiwn Gymraeg o rai dogfennau detholedig a gynhyrchir yn fewnol, ac yn sicrhau eu bod ar gael fel arfer naill ar y wefan neu trwy'r post, neu'r ddau. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys taflenni, safonau, papurau ymgynghorol, datganiadau polisi ayb a gedwir ar ffurf electronig neu fel copi caled. Dyma'r canllawiau ar gyfer dethol dogfennau i'w cyfieithu:

- Dogfennau a ddanfonir yn arferol mewn atebiad i ymholiadau ysgrifenedig, e.e. taflen 'Putting Things Right'. Diben gwneud hyn yn y lle cyntaf yw cwrdd â'r ymrwymiad yn adran 3.

♦ Dogfennau sy'n ymwneud â Chymru a phobl Cymru, e.e. Polisi Dethol Gweithredol 7 ar gyfer y Swyddfa Gymreig, 1979 hyd 1997.

♦ Dogfennau sydd yn perthyn yn agos i ddeunyddiau eraill yn yr iaith Gymraeg, e.e. y Fframwaith Safonau sydd yn perthyn yn agos i Safon Archifdai yr Archifau Cenedlaethol.

4.2 Ni chyfieithir dogfennau os bydd unrhyw un o'r ffactorau canlynol yn berthnasol:

♦ Eu bod yn cynnwys iaith dra chymhleth neu dechnegol, e.e. y canllawiau mwyaf technegol ar gyfer rheoli cofnodion.

♦ Ni ellir cyfiawnhau cyfieithiad ar sail cost neu ymarferoldeb, e.e. adroddiad blynyddol y Ceidwad a thudalennau'r wefan (yn hytrach na dogfennau a atodir at y tudalennau).

♦ Nid oes galw digonol amdanynt.

4.3 Sylwer na fyddwn yn darparu unrhyw wasanaeth llafar neu wasanaeth cynghori - yn ein swyddfa nac ar y ffôn - yn Gymraeg. Ni ellir cyfiawnhau darparu'r gwasanaethau hyn ar sail rhesymau ariannol na'r galw amdanynt.

4.4 Byddwn yn cadw rhestr o'r dogfennau yr ydym yn eu darparu yn yr iaith Gymraeg. Bydd y rhestr ar gael ar y wefan, yn ein Llyfrgell neu ar gais.

5 Cynrychioli Cymru mewn cyfarfodydd lle mae diddordebau Cymreig yn y fantol

5.1 Byddwn yn sicrhau y bydd cynullyddion cyfarfodydd sydd yn ymwneud i raddau sylweddol â phobl Cymru yn enwebu neu'n gwahodd person neu bersonau 'addas a chymwys' i gynrychioli diddordebau pobl Cymru.

5.2 Bydd TNA yn ad-dalu i'r person neu'r personau enwebedig unrhyw dreuliau am deithio a chynhaliaeth a wariwyd yn rhesymol ac yn angenrheidiol wrth deithio i'r cyfarfod neu'r cyfarfodydd ac yn ôl.

5.3 Mae cyfarfodydd yn debygol o gael eu cynnal yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew, Surrey, neu yn y Ganolfan Cofnodion Teulu yn Islington, Llundain, ac fe'u cynhelir yn Saesneg. Nid yw'r Archifau Cenedlaethol yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y person neu'r personau a enwebwyd.

6 Adolygu'r Polisi

6.1 Adolygir y polisi hwn bob tair blynedd neu pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydlu archifdy swyddogol i Gymru neu pan fydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn galw amdano.

24/04/2007